# Adroddiad 2024

## Virginia CROSBIE

**NEWYDDION GAN AELOD SENEDDOL YNYS MÔN**

Nid yw trethdalwyr y DU wedi talu am gostau argraffu a dosbarthu'r pamffled hwn.



- Llywodraeth y DU yn prynu Wylfa
- Ffyniant Bro – Caergybi
- Gwefan Swyddi'r Porthladd Rhydd

"Heb ddycnwch, dyfalbarhad a gwaith caled anhygoel Virginia Crosbie, ni fyddem wedi gallu elwa o'r manteision economaidd-gymdeithasol enfawr sy'n gysylltiedig â gorsaf niwclear newydd ar safle Wylfa. Mae Virginia wedi bod, ac yn dal i fod, yn llais cryf o blaid ynni niwclear ar Ynys Môn – dyw hi byth yn rhoi'r ffidil yn y to. Bydd gorsaf niwclear newydd yn cael ei hadeiladu yn Wylfa. Diolch yn fawr i Virginia am ei hymgyrch barhaus – mae'r gymuned angen ac yn haeddu Wylfa newydd..." Sasha Davies, Cadeirydd Fforwm Niwclear Cymru

# Helo – Croeso i fy adroddiad blynyddol, 2024

## FY NGWAITH MEWN RHIFAU

**23,600**
O achosion wedi'u hymdrin

**527**
o gwestiynau a llythyrau at Weinidogion

**334**
o sylwadau am Ynys Môn yn y Senedd

**652**
o gyfraniadau llafar yn ystod Achosion Seneddol

**£249 m**
o gyllid gan Lywodraeth y DU wedi'i neilltuo i Ynys Môn

**31**
Gweinidog yn ymweld ag Ynys Môn a dau Brif Weinidog

## FY MLAENORIAETHAU DROS YNYS MÔN

### 1 Dod â Niwclear Newydd i Wylfa

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bod wedi prynu safle Wylfa am £160m, gan ddangos ei hymrwymiad i ddod ag ynni niwclear newydd i Ynys Môn. Ar ôl inni gael cymeradwyaeth ar gyfer adweithyddion mawr neu adweithyddion modiwlaidd bach ar y safle, bydd miloedd o swyddi da'n cael eu creu ar gyfer cenedlaethau o drigolion yr ardal. Rydw i'n gwneud popeth o fewn fy ngallu yn San Steffan i wireddu hyn.

### 2 Datblygu Porthladd Rhydd ffyniannus yn Ynys Môn

Fe wnes i ymgyrchu'n ddiflino dros gael statws porthladd rhydd i Ynys Môn er mwyn i'r holl ynys fod ar ei hennill. Disgwylir y bydd statws porthladd rhydd yn arwain at fwy na 13,000 o swyddi a £1bn o fuddsoddiad ledled Gogledd Cymru, a bydd llu o swyddi o'r radd flaenaf, sy'n talu'n dda, yn dod i'n hynys. Y cam diweddaraf yw gwefan Swyddi'r Porthladd Rhydd, lle bydd modd i drigolion yr ardal weld y cyfleoedd diweddaraf.

### 3 Cynhyrchu Ffyniant ledled Ynys Môn

Rydw i'n tywys busnesau o'r radd flaenaf, fel GE Hitachi, Rolls-Royce, Bechtel a KEPCO o gwmpas Ynys Môn. Maent yn cydnabod y cyfleoedd gwych sydd i'w cael yma ac maent yn dymuno bod yn rhan o ddyfodol Ynys Môn. Gofynnaf i bob cwmni sy'n buddsoddi yma ymrwymo i'm hymgyrch 'Swyddi Lleol i Bobl Leol' – sef y byddant yn rhoi blaenoriaeth i bobl leol wrth lenwi'r swyddi a gynigiant yma ar Ynys Môn, pa bryd bynnag y bo modd.

### 4 Trydedd bont dros y Fenai i wella cysylltedd

Yn dilyn y digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned gyda'r tîm sy'n trwsio Pont Menai, mae'n fwyfwy amlwg bod yna alw am drydedd bont dros y Fenai. Hefyd, byddai trydedd bont yn gwneud Wylfa a Phorthladd Rhydd Ynys Môn yn fwy atyniadol a dichonadwy. Mae trydedd bont yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ond rydw i'n gweithio gyda llywodraeth y DU i geisio dod o hyd i ffordd ymlaen.

### 5 Gwneud y gorau o Ynys Ynni

Gan fod ynni niwclear gam yn nes, gall ein hynys ymfalchïo yn ei thoreth o dechnolegau cynhyrchu ynni. Mae gennym brosiectau gwynt, solar, llanw a hydrogen yn yr arfaeth ac mae cynhyrchwyr ynni mawr fel HydroWing yn symud eu gweithrediadau i Ynys Môn er mwyn iddynt allu elwa o'n hadnoddau llanwol naturiol a chynnig rhagor o swyddi i bobl yr ardal.

### 6 Gwella gofal iechyd lleol

Mae iechyd yn faes sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth y Blaid Lafur yng Nghaerdydd. Eto i gyd, mae oddeutu traean o'm gwaith achos yn ymwneud ag iechyd. Yn aml, rydw i'n helpu etholwyr i gael gafael ar ofal iechyd angenrheidiol, megis apwyntiadau ysbyty, triniaeth ddeintyddol neu fynediad at feddygon teulu. Un o'n blaenoriaethau yw tynnu sylw at brinder meddygon teulu a diffyg cyfleusterau iechyd integredig yng Nghaergybi.

## Cynhyrchwyd yr Adroddiad Blynyddol hwn diolch i:

Maes Carafannau Bryn Ednyfed Caravan Site
Sergios Fish and Chips
GreatOutdoorDepot.com
Adelphi Vaults Amlwch
Nova Chrome UK
Royalty Recruitment
Siop Llandeg
DU Construction
Red Wharf Bay Vineyard
The Hogan Group
Damara Môn
WOW Training
Textile Developments UK Ltd
Valley Dental
Bleeper Services Ltd
Bishopsgate House Hotel and Restaurant
BS4C Finance Limited
Valley Pharmacy
Keith Best TD MA
Medic 1 Direct Ltd
Metex

**Croeso i'm pedwerydd adroddiad blynyddol.** Braint yw cael bod yn Aelod Seneddol ar eich rhan a bod yn llais dros Ynys Môn yn San Steffan. Dyna pam rydw i'n ymrwymo bob blwyddyn i ddosbarthu fy adroddiad blynyddol i bob cartref trwy'r ynys, er mwyn sicrhau fy mod yn atebol i chi, drigolion Ynys Môn.

Rydw i'n gweithio'n galed i gyflawni dros ein hynys. Ar ôl pedair blynedd o ymgyrchu i ddod â gorsaf niwclear newydd i Wylfa, roeddwn wrth fy modd bod y Canghellor wedi defnyddio'r gyllideb i gyhoeddi bod Great British Nuclear yn prynu safle Wylfa gan Hitachi ar ran Llywodraeth y DU. Mae cynnydd rhagorol yn cael ei wneud ar ein prosiectau mawr eraill, yn cynnwys clirio hen safle Alwminiwm Môn er mwyn gwneud lle ar gyfer Parc Ffyniant Porthladd Rhydd Ynys Môn ac addasu hen Gysgodfannau Newry fel rhan o'r rhaglen Ffyniant Bro, sy'n werth £17m. Mae Llywodraeth y DU wedi buddsoddi mewn pethau newydd a chyffrous, megis £98,000 ar gyfer cyfleusterau chwaraeon llawr gwlad ym Modedern, Caergybi, Llangefni a Thŷ Croes ac £800m ar gyfer gwelliannau yn RAF y Fali. Trwy gyfrwng fy ymgyrch 'Swyddi Lleol i Bobl Leol', rydw i'n gofyn i bob busnes sy'n buddsoddi yma roi blaenoriaeth i bobl leol ar gyfer swyddi ar Ynys Môn a gweithio gyda darparwyr hyfforddiant lleol i uwchsgilio ein gweithlu.

Rydw i'n parhau i fachu ar bob cyfle i dynnu sylw at Ynys Môn yn San Steffan ac ymladd i ddod â swyddi da a buddsoddiad i'r ynys. Dyma sut y gallwn sicrhau y bydd modd i'n pobl leol weithio'n lleol, aros yn eu cymunedau, prynu cartrefi a magu eu teuluoedd yma, yn ogystal â chadw'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn fyw.

*Virginia*



## Cysylltwch ynghylch

- Unrhyw broblem neu bryder lleol
- Eich straeon o lwyddiant, arwyr, digwyddiadau neu fusnesau lleol
- Ffyrdd y gallwch fy nghefnogi wrth i mi weithio i ddenu newid cadarnhaol i Ynys Môn
- I ddweud helô a chyflwyno eich hun

## Dewch i ni gydweithio i wella Ynys Môn

Treuliwch ddau funud yn llenwi fy holiadur. Dyma'ch cyfle i ddweud wrthyf yr hyn sy'n bwysig i chi a'ch cymuned **Virginiacrosbie.co.uk/survey**

**Ffôn: 01407 470747** | **Ebost: virginia4ynysmon@gmail.com**
**facebook.com/VirginiaCrosbieMP** | **virginiacrosbie.co.uk**

Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig
Argraffwyd gan WO Jones (Argraffwyr) Ltd, Llangefni, LL77 7JA
Hyrwyddwyd gan Bethan Davies or ran Virginia Crosbie AS, y ddwy d/o /Blwch Post 85, Caergybi LL77 2BZ.








"Mae gan y porthladd rhydd botensial gwirioneddol i drawsnewid economi'r ynys. Gweithiodd llawer o bobl yn galed i sicrhau bod Ynys Môn yn ennill statws porthladd rhydd. Ond mae gennym arf cudd hefyd, oherwydd bu Virginia Crosbie yn lobïo'n ddiflino yn Llywodraeth y DU dros y polisi hwn. Ei gwaith hi oedd yr allwedd a lwyddodd i ddatgloi'r drws."

Robert Williams, WOW Training



## Llywodraeth y DU yn buddsoddi £160m yn Wylfa

Pan gefais fy ethol, fe wnes i ymrwymo i ddod â gorsaf niwclear newydd i Wylfa. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, rydw i wedi sicrhau bod Wylfa wrth galon a chraidd polisi ynni hirdymor Llywodraeth y DU. Bydd ynni niwclear yn Wylfa yn cyflawni strategaeth diogelwch ynni'r DU, yn ogystal â chynnig swyddi hirdymor i Ynys Môn.

Yng Nghyllideb Gwanwyn 2024, soniodd Canghellor y Trysorlys am y fuddugoliaeth bwysicaf hyd yn hyn yn y siwrnai hon pan gyhoeddodd fod Great British Nuclear, sef corff niwclear Llywodraeth y DU, yn prynu safle Wylfa gan Hitachi am £160m.

Roeddwn wrth fy modd pan ddywedodd y Canghellor: *"Mae gan Ynys Môn rôl hollbwysig o ran cyflawni ein huchelgeisiau niwclear, a ddylai neb gael mwy o ganmoliaeth am y cyhoeddiad hwn heddiw na fy nghyfaill anrhydeddus diflino, dygn a phwerus dros Ynys Môn."*

Rydw i wedi cyflawni fy ymrwymiad yn gyson dros orsaf niwclear newydd, yn cynnwys sefydlu a chadeirio'r Grŵp Cyflawni Niwclear, cymryd rhan ym Mhwyllgor y Bil Ariannu Niwclear a dod â Gweinidogion a Phrif Weinidogion i ymweld â safle Wylfa.

Rydw i'n dal i gynnal trafodaethau a threfnu ymweliadau gyda datblygwyr adweithyddion mawr ac adweithyddion modiwlaidd bach. Mae Llywodraeth y DU wedi dewis Holtec Britain, GE Hitachi, Rolls Royce, NuScale, Westinghouse ac EDF ar gyfer cam nesaf Cystadleuaeth Adweithyddion Modiwlaidd Bach y Llywodraeth. Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni ac rydw i'n gobeithio y byddwn yn gweld rhagor o gynnydd gwirioneddol mewn perthynas ag ynni niwclear newydd yn Wylfa.

## Mae Porthladd Rhydd Ynys Môn yn parhau i ddatblygu'n gyflym

Mae ennill statws Porthladd Rhydd ar gyfer Ynys Môn yn fan cychwyn i ddadeni economaidd yr ynys. Ers y cyhoeddiad y llynedd, mae tîm Porthladd Rhydd Ynys Môn wedi bod yn gweithio'n galed ac mae wedi cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol gerbron Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Er y bydd Ynys Môn i gyd yn cael ei dynodi'n Borthladd Rhydd, mae'r Achos Busnes Amlinellol yn dadlau dros gael safleoedd treth neu dollau arbennig yn Rhosgoch, M-SParc a Chaergybi. Eisoes, mae Stena, sef perchnogion y Parc Ffyniant (safle Alwminiwm Môn gynt), wedi gwneud cynnydd mawr o ran clirio'r safle – yn arbennig o ran dymchwel Tŵr Tinto, sef gweithred a gafodd ei gwylio gan gannoedd o bobl yng Nghaergybi i'w thwyllo. Ar ôl cael cymeradwyo'r Cynllun Busnes Amlinellol, bydd achos busnes manwl yn cael ei gyflwyno, ond mae trafodaethau eisoes ar waith er mwyn denu cwmnïau newydd i'r Parc Ffyniant, yn ogystal â swyddi, buddsoddiad a chyfleoedd newydd.

Mae'r cwmnïau a fydd yn ymsefydlu yn y Porthladd Rhydd, ynghyd â busnesau eraill ar Ynys Môn, yn cael cynnig cyfle i hysbysebu swyddi gwag ar wefan swyddi arbennig ar gyfer yr ynys – sef gwefan a sefydlwyd gan dîm y Porthladd Rhydd.

Hefyd, rydw i'n gweithio gyda thîm y Porthladd Rhydd i sicrhau bod y busnesau a fydd yn ymsefydlu yma yn gwneud y canlynol:

- ymrwymo i'm hymgyrch 'Swyddi Lleol i Bobl Leol'
- gweithio gyda darparwyr hyfforddiant lleol i gyflwyno hyfforddiant sgiliau
- ymgysylltu'n gadarnhaol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn achos y bobl hynny sydd wedi gadael yr ynys, rydw i'n gobeithio hefyd y bydd y swyddi newydd yn eu hannog i ddychwelyd yma i chwilio am waith.



VIRGINIA CROSBIE: GWEITHREDU DROS SWYDDI A BUDDSODDIAD I YNYS MÔN
















## Mae pawb yn adnabod rhywun y mae Virginia wedi'u helpu

Fel eich AS, un o fy mhrif swyddi yw helpu pobl leol. Rwyf wedi rheoli dros 23,600 achos gan bobl ar draws Ynys Môn.

**Dyma enghreifftiau o'm gwaith, gyda chefnogaeth fy nhîm arbennig yng Nghaergybi.**

"Hoffwn wneud yn fawr o'r cyfle hwn i ddiolch i chi, Virginia, a'r holl dîm am eich gwaith caled y tu ôl i'r llenni. Heb eich help chi, go brin y byddai'r mater hwn wedi cael ei ddatrys!" Mr Williams, Caergybi

"Hoffwn wneud yn fawr o'r cyfle hwn i ddiolch i chi a'ch tîm am fy nghynorthwyo gyda fy nhreth gyngor. Heb eich help chi, buaswn yn dal i chwilio am atebion." Mrs Jones, Niwbwrch

"Fel un o'n Noddwyr, mae Virginia wedi bod yn rhagweithiol eithriadol o ran cefnogi a hyrwyddo Ucheldre – cefnogi ein prosiectau cymunedol ac addysgol, mentro allan yn y gwynt a'r glaw i'n gwylio'n plannu coed ac i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithdai." Mike Gould, Rheolwr Cyffredinol, Canolfan Ucheldre

"Mae Virginia Crosbie wedi esgor ar ganlyniadau gwirioneddol. Mae ganddi ddull cyson ac mae hi'n parhau i hyrwyddo'r manteision sy'n perthyn i fuddsoddi yn Ynys Môn ar lefel genedlaethol a lleol." Kevin Hogan, Grŵp Hogan

"Yng nghanol holl helyntion San Steffan ac aneffeithiolrwydd Bae Caerdydd, mae Virginia Crosbie wedi parhau i ymgyrchu'n ddiflino dros Ynys Môn. Rydym yn lwcus iawn i'w chael hi." Kristian Cuffin, Cuffed-In Coffee

"Hawdd iawn yw siarad yn dda a gwneud fideos slic, ond anos o lawer yw cyflawni. Mae modd gweld yn glir yr hyn y mae Virginia wedi'i gyflawni." Alwyn Rowlands, Cadeirydd, Canolfan Biwmares

**A allaf i eich helpu gyda phroblem? Cysylltwch â mi drwy virginia4ynysmon@gmail.com neu 01407 470747 neu Blwch Post 85, Caergybi, LL77 9BZ neu ar-lein drwy virginiacrosbie.co.uk**




## Yr Ymgyrch Swyddi Lleol i Bobl Leol

Pan fyddaf yn siarad gyda phobl Ynys Môn am eu pryderon, rhywbeth sy'n brif flaenoriaeth iddynt bron bob amser yw denu swyddi a buddsoddiad i'r ynys. Hefyd, maent yn poeni y bydd y swyddi hynny'n cael eu rhoi i bobl a fydd yn symud i'n hynys.

Mae gormod o bobl leol yn gorfod gadael yr ynys i chwilio am yrfaoedd da. Felly, pwysig iawn yn fy nhyb i yw sicrhau mai nhw fydd yn elwa yn gyntaf ar gyfleoedd newydd. Y nod o ran denu swyddi newydd i'r ynys yw sicrhau y bydd modd i bobl leol aros yn eu cymunedau a sicrhau y gall y Gymraeg a diwylliant Cymru ffynnu.

Mae mwy na 25 o gyflogwyr wedi ymrwymo i'm hymgyrch 'Swyddi Lleol i Bobl Leol' – o gwmnïau byd-eang fel Bechtel i fusnesau lleol fel Glyn Jones a Cuffed-In Coffee.

Mae'r cwmnïau wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

- gweithio gyda darparwyr hyfforddiant lleol i helpu i uwchsgilio pobl leol ar gyfer swyddi newydd
- hysbysebu swyddi'n lleol
- rhoi blaenoriaeth i bobl leol wrth lenwi swyddi gwag pan fo modd.

Os yw eich cwmni chi'n dymuno ymrwymo i'm hymgyrch 'Swyddi Lleol i Bobl Leol', cofrestrwch ar https://cymraeg.virginiacrosbie.co.uk/cy/SLiBL.

> "Gan fod cynifer o'n pobl ifanc yn gadael yr ynys i ddod o hyd i swyddi, ni allwch beidio â phoeni am ddyfodol yr iaith Gymraeg. Os ydym am droi'r llanw, mae hi'n hollbwysig sicrhau bod pobl leol yn cael swyddi da." Richard Jones, Jersis 'Maelog' Jerseys

## Gwella Mynediad at Ofal Iechyd Lleol

Er bod gofal iechyd yn fater sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth y Blaid Lafur yng Nghaerdydd, mae problemau etholwyr o ran cael gafael ar wasanaethau iechyd yn cyfateb i oddeutu traean o'm gwaith achos.

Am bob punt a gaiff ei gwario ar wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr, mae Llywodraeth Cymru yn cael £1.20 ar gyfer pobl yng Nghymru. Ond ni all Llywodraeth y DU ddweud wrth Lywodraeth Cymru sut y dylai wario'r arian hwnnw.

Mae data diweddar ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i ddangos methiannau yn y GIG yng Ngogledd Cymru. Rydw i a'm cydweithwyr yng Ngogledd Cymru yn darllen cynifer o straeon personol dirdynnol gan bobl leol ynglŷn â'r effaith a gaiff perfformiad enbydus y Bwrdd Iechyd arnynt hwy a'u hanwyliaid.

Ym mis Ebrill, fe wnes i gynnal trafodaeth ynglŷn â gofal iechyd ledled y DU – yn cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig – ac rydw i wedi galw ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn San Steffan i ystyried a oes modd dod o hyd i ffyrdd o fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd enbyd a geir yng Ngogledd Cymru. Yn y cyfamser, byddaf yn parhau i dynnu sylw at bob darn o waith achos gofal iechyd a ddaw i law a byddaf yn pwyso ar reolwyr y Bwrdd Iechyd ac ar Lywodraeth Cymru am welliannau ar gyfer fy etholwyr.

> "'Mae iechyd yn fater sydd wedi'i ddatganoli', meddan nhw. 'Dylai'r AS roi'r gorau i ymyrryd mewn materion nad ydyn nhw'n ymwneud â hi.' Wel, rydw i'n falch ei bod hi'n 'ymyrryd'. Pe na bai hi'n codi llais, ni fyddai gennym neb i eirioli drosom." Laurel Knight, Medic 1, Llangefni



VIRGINIA CROSBIE: GWEITHREDU DROS SWYDDI A BUDDSODDIAD I YNYS MÔN

## Dweud eich dweud ynglŷn ag 20 milltir yr awr

Ers i'r terfyn cyflymder newydd, sef 20 milltir yr awr, gael ei roi ar waith ledled Cymru, mae fy mag post wedi bod yn orlawn o lythyrau gan etholwyr anfodlon. Mae cynifer ag 8,796 o bobl ar Ynys Môn wedi llofnodi'r ddeiseb i ddiddymu'r gyfraith 20 milltir yr awr.

Rhoddwyd y terfyn cyflymder newydd ar waith gan Lywodraeth Plaid Lafur Cymru yng Nghaerdydd, ond yn fy marn i a nifer o drigolion Ynys Môn, ni chafodd ei ystyried yn ddigonol. Er bod pawb yn cydnabod y dylai rhai ardaloedd – fel y tu allan i ysgolion, ysbytai a meysydd chwarae – fod yn ardaloedd 20 milltir yr awr, mae'r rheoliadau newydd yn creu mwy fyth o anghydraddoldebau rhwng y Gymru wledig a'r Gymru drefol. Mae amseroedd teithio mewn cymunedau gwledig, fel ein cymuned ni, wedi cynyddu'n fawr, mae gwasanaethau bysiau wedi cael eu cwtogi ac mae busnesau'n dioddef.

Caiff Awdurdodau Lleol ofyn am "eithriadau" i'r terfyn 20 milltir yr awr ar gyfer ffyrdd y credir y dylent fod yn 30 milltir yr awr. Rhoddodd Cyngor Ynys Môn 17 o eithriadau ar waith pan gyflwynwyd y terfyn yn gyntaf (o gymharu ag 85 yng Ngwynedd) ac nid oes ganddo unrhyw fwriad hyd yn hyn i wneud cais am ychwaneg o eithriadau.

Dyna pam y penderfynais gynnal uwchgynhadledd yn Llangefni – cyfle i drigolion lleol drafod eu pryderon ynglŷn â'r terfyn cyflymder newydd ac awgrymu ffyrdd a ddylai, yn eu tyb nhw, ddychwelyd at fod yn 30 milltir yr awr. Ar ran fy etholwyr, rydw i wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr y Cyngor Sir i gyflwyno'u hawgrymiadau ac rydw i'n gobeithio y bydd modd bwrw ymlaen â'r ceisiadau hyn.

## Pont Menai: Ymgysylltu â'r Gymuned

Pan gaewyd Pont Menai ar fyr rybudd ym mis Hydref 2022, dechreuais ymgysylltu'n syth â'r gymuned leol, ac yn arbennig â'r busnesau lleol hynny y byddai cau'r bont yn effeithio arnynt.

Rydw i'n parhau i'w cynrychioli mewn cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru ac rydw i wedi cyflwyno'u hachos dros iawndal a chymorth.

Ar ôl nifer o geisiadau, roeddwn wrth fy modd pan ofynnodd y cwmni a gyflogir dan gontract gan Lywodraeth Cymru i drwsio'r bont – sef UK Highways A55 Ltd – am help i drefnu digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned.

Mynychodd mwy na deugain o bobl y digwyddiad i drafod y gwaith a chael rhagor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith. Hefyd, bu'n gyfle i bobl leol rannu eu meddyliau ar gyfer daucanmlwyddiant y bont yn 2026 a thrafod yr angen am drydedd bont dros y Fenai. Os ydych yn cefnogi fy ymgyrch dros gael trydedd bont dros y Fenai, a wnewch chi lenwi'r arolwg: https://cymraeg.virginiacrosbie.co.uk/en/campaigns/trydedd-pont-dros-y-fenai-i-wella-cysylltedd




## Dod ag Aldi i Amlwch

Yn gynharach eleni, gofynnodd trigolion Ward Twrcelyn am help i ddod ag archfarchnad Aldi i Amlwch.

Roeddwn yn disgwyl cyfarfod bach yng nghaffi Blueberries gyda Mandy Jones, un o'r trigolion, ac Aled Morris Jones, cynghorydd lleol. Ond yn y diwedd, cafwyd rali a oedd yn cynnwys trigain o bobl, gyda phob un yn awyddus i ddangos eu cefnogaeth dros y cynnig.

Fel manwerthwr disgownt, dywed Aldi fod mwy nag 80% o'i werthiannau wedi deillio o gyflenwyr Prydain yn 2023, ac mae'n ymdrechu'n galed i weithio gyda chyflenwyr lleol pan fo modd – rhywbeth sydd o fudd i gynhyrchwyr ac i ddefnyddwyr fel ei gilydd.

Rydw i wedi cysylltu ag Aldi ac mae'r cwmni'n awyddus i archwilio'r posibilrwydd o sefydlu archfarchnad yn Amlwch, ond mae angen gwybod bod y gymuned yn gefnogol. Felly, rydw i wedi creu tudalen ymgyrch.

Eisoes, mae cannoedd o bobl wedi llofnodi "Dod ag Aldi i Amlwch" a gallwch ychwanegu eich llais trwy ymweld â: https://cymraeg.virginiacrosbie.co.uk/cy/ymgyrch-aldi-i-amlwch

> "O fewn dyddiau i gysylltu â Virginia, fe wnaeth hi gysylltu ag Aldi a chyfarfod â'r gymuned leol yn Amlwch, ac yn awr mae hi wedi lansio ymgyrch. Mae ymrwymiad Virginia i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yma yng Ngogledd yr ynys wedi creu cryn argraff arnaf." Mandy Jones









## Gwella Bywyd i Bobl a Theuluoedd Lleol

Fel eich AS, un o'm hegwyddorion canllaw yw rhoi llais i bobl sy'n credu nad oes ganddynt neb arall i siarad ar eu rhan. Dyna pam y mae denu swyddi a buddsoddiad i Ynys Môn mor bwysig i mi. Bu'n rhaid i'm tad adael Cymru i ddod o hyd i waith. Rydw i eisiau i bobl ifanc gael dewisiadau ac rydw i eisiau i'n cymunedau aros gyda'i gilydd – a'r ffordd orau y gallaf lwyddo i wneud hyn yw trwy ddarparu gyrfaoedd lleol da i bobl leol.

Rydw i'n helpu cymunedau lleol mewn ffyrdd eraill hefyd – megis cynnal ffeiriau swyddi, noddi clybiau chwaraeon lleol, ac ymweld ag ysgolion a grwpiau ieuenctid. Rydw i wedi helpu i godi mwy na £42,000 i grwpiau cymunedol ac elusennau lleol.

Y llynedd, cefais gais gan blant Ysgol Gynradd Llanfawr ym Morawelon, Caergybi. Cysylltodd y plant i ofyn a fyddai modd imi eu helpu i gael Parc Sblash ar gyfer eu hysgol. O fewn deuddydd, fe wnes i ymweld â'r ysgol i glywed gan y plant eu hunain.

Tra'r oeddwn yn yr ystafell ddosbarth, ffoniais fusnes parciau sblash. Ar ôl rhoi'r unigolyn ar y ffôn-seinydd, cawsom sgwrs gyda'r plant ynglŷn â'r mater. Fe wnaethom ddysgu bod parciau sblash angen llawer o waith cynllunio, yn ogystal â chaniatâd gan y cyhoedd a llawer o amser. Felly, cawsom y syniad o gynnal Diwrnod Sblash yn hytrach na chael Parc Sblash.

I ariannu Diwrnod Sblash Ysgol Llanfawr, gofynnais i ymddiriedolaeth elusennol sy'n gysylltiedig ag un o gwmnïau Porthladd Rhydd Ynys Môn a fyddai modd iddi helpu – a dywedodd yr ymddiriedolaeth y byddai'n falch o gael cefnogi'r syniad.

Yn gynharach eleni, fe wnes i ymweld ag Ysgol Llanfawr drachefn gyda chynrychiolwyr o Ymddiriedolaeth Competere a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau i gyflwyno siec o £600 i'r plant. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i dalu am yr holl offer angenrheidiol ar gyfer eu Diwrnod Sblash.

Os hoffech imi gynorthwyo eich ysgol neu eich grŵp cymunedol, cysylltwch â mi ar virginia4ynysmon@gmail.com neu ffoniwch 01407 470747.





## Mynd ag Ynys Môn i San Steffan

Roedd fy Niwrnod Ynys Môn blynyddol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2023 yn cynnwys busnesau sydd wedi elwa o'r Academi Ddigidol Werdd a ariannwyd gan Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU. Daeth cwmnïau fel Prifysgol Bangor, Sw Môr Môn, Safle Carafanau Bryn Ednyfed, Stiwdios Ffilmiau Aria, John Kelly Construction, Mona Lifting a Metex i'r arddangosfa, a bu gwirfoddolwyr Ynys Lawd yn helpu i gydgysylltu'r digwyddiad a'r bagiau rhoddion. Noddwyd y digwyddiad gan GE Hitachi.

Mynychwyd y digwyddiad gan nifer o Weinidogion, Arglwyddi ac Aelodau Seneddol, yn cynnwys Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, a gwych oedd gallu tynnu sylw at Ynys Môn ymhlith fy nghydweithwyr.

Rydw i hefyd wedi croesawu nifer o bobl leol i San Steffan – daeth rhai ohonynt fel rhan o drip i Lundain a daeth eraill ar gyfer digwyddiadau arbennig yn y Senedd. Yn ystod y misoedd diwethaf, cafodd y canlynol eu cydnabod ar sail eu cyfraniadau i'r gymuned mewn derbyniadau yn Rhif 10 Stryd Downing.

Rydw i wastad yn falch o gael cyfarfod â'm hetholwyr yn San Steffan. Os hoffech ymweld, nodwch eich manylion yma: https://cymraeg.virginiacrosbie.co.uk/cy/node/8.

## Helpu i ddatrys problem 'llinellau melyn dwbl' ym Mrynsiencyn

Yn ystod misoedd olaf 2023, gofynnodd etholwyr Brynsiencyn a fyddai modd imi eu helpu gyda mater a oedd yn destun cryn bryder yn yr ardal: roeddynt wedi cael gwybod y byddai llinellau melyn dwbl yn cael eu gosod ar y ddwy ochr i'r ffordd.

Ar ddiwrnod gwlyb a gwyntog ym mis Rhagfyr, fe wnes i ymweld â thrigolion yr ardal er mwyn gweld a deall y broblem. Trwy osod y cyfyngiadau parcio arfaethedig, byddai oddeutu 30 o fannau parcio'n cael eu colli, gan achosi anawsterau i bobl â phroblemau symud, i deuluoedd ac i bobl â chyfrifoldebau gofalu. Hefyd, roedd y trigolion yn poeni y byddai'r cyfyngiadau'n atal pobl rhag defnyddio siopau a thafarndai lleol, fel Y Groeslon a Heritage Siop Coffi – Coffee Shop. Ysgrifennais at y Cyngor Sir, gan gynrychioli'r trigolion, a chefais sicrwydd fod y broses ymgynghori'n dal i fod ar waith. Rhoddais ganllawiau i'r trigolion ar gyfer cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac rydw i'n edrych ymlaen at weld y Cyngor yn gwneud y penderfyniad iawn ar gyfer pobl leol.

Os hoffech imi eich helpu gyda rhywbeth sy'n peri pryder yn eich cymuned, cysylltwch â mi ar virginia4ynysmon@gmail.com neu ffoniwch 01407 470747.